FSA 10/10/04 **10 MAWRTH 2010**

PWYLLGOR CYNGHORI AR FWYD CYMRU

CYNLLUN GWAITH BLYNYDDOL, MAWRTH 2010 - MAWRTH 2011

Gweithgareddau

1. Cynghori Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Dyma brif swyddogaeth Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru o hyd, yn unol â darpariaethau Deddf Safonau Bwyd 1999. Wrth gyflawni'r amcan hwn, mae'r Pwyllgor yn ceisio manteisio ar yr amgylchedd TG Sharepoint sydd wrthi'n cael ei ddatblygu o fewn yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Byddai amgylchedd Sharepoint yn galluogi aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru i gyfnewid gwybodaeth, bod yn fwy ymatebol a chynllunio a chytuno ar agendâu'r dyfodol heb orfod cyfarfod. Byddai hyn yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

2. Gwella'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid

Yn ystod 2009, mabwysiadodd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru drefn newydd ar gyfer ei gyfarfodydd. Aeth ati i ddisodli cyfarfodydd agored traddodiadol gyda *chyfarfodydd agored thematig*, gan roi mwy o gyfle i randdeiliaid ymgysylltu â'r ASB ar faterion sy'n berthnasol i'r agenda thematig, ac ar faterion mwy cyffredinol. Yn ystod 2009, cynhaliwyd cyfarfodydd agored thematig ledled Cymru, gyda dau gyfarfod yn canolbwyntio ar faterion Iechyd Deietegol ac un yn canolbwyntio ar faterion Cynhyrchu Sylfaenol. O ganlyniad, mae mwy o randdeiliaid o lawer wedi mynychu, ac ar gyfartaledd mae nifer y bobl sy'n cofrestru ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru wedi codi o lai na deg i tua 30.

Mae'r Pwyllgor wedi adolygu effeithiolrwydd y drefn newydd yn ddiweddar, gan ddod i'r casgliad bod y fformat diwygiedig ar gyfer cyfarfodydd yn cynnig mwy o gyfle i ddysgu am, a deall pryderon rhanddeiliaid Cymru ac yn rhoi sylfaen ehangach a mwy tryloyw ar gyfer cyngor gan y Pwyllgor i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu parhau â'r drefn thematig yn 2010-11 ac mae wedi cytuno ar amserlen ar gyfer cyfarfodydd thematig fel y canlyn. Ategir y cyfarfodydd agored hyn gan gyfarfodydd busnes yn ôl yr angen, er enghraifft, er mwyn cynllunio agendâu'r dyfodol.

2010	
7/8 Ebrill	Cyfarfod agored thematig yng Nghaerdydd. *Thema'r sesiwn agored - Camau Gorfodi gan Awdurdodau Lleol*
22 Gorffennaf	Cyfarfod agored thematig ar faes y Sioe Fawr, Llanelwedd. *Thema'r sesiwn agored – Cynhyrchu Sylfaenol*

3/4 Tachwedd	Cyfarfod agored thematig ym Mangor. *Thema'r sesiwn agored – Cynaliadwyedd a Diogelwch Bwyd*

Mae cynllun gwaith Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru 2010-11 yn cymryd y bydd y dechnoleg wybodaeth a nodir uchod ar gael yn ystod 2010.

3. Arian

Mae costau gweithredu blynyddol Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru yn cael eu nodi isod.

	08/09	**09/10 (amc)**
	£	
Cyflogau aelodau	42,552	42,552
Teithio a Chynhaliaeth Aelodau	1,282	1,808[1]
Cyfanswm	**43,834**	**44,330**
Arlwyo	371	700
Hysbysebu ac argraffu	14,326	4,000[2]
Llogi Ystafelloedd	935	575
Llety	4,003	2,100
Cyfanswm	**19,635**	**7,375**
Cyflogau'r Ysgrifenyddiaeth	24,377	24,986
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	1,791	1,835
Pensiwn y Cyflogwr	4,625	4,741
Cyfanswm	**30,793**	**31,563**
Prif Gyfanswm	**94,262**	**83,268**

[1] Yn cynnwys ymweliad gan Gadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru â Phwyllgor Cynghori ar Fwyd Gogledd Iwerddon.
[2] 4 cyfarfod agored yn 08/09. 2 gyfarfod agored yn 09/10.